

Trin hydroceffalws sy'n gysylltiedig â gwaedu ymhlith babanod cynamserol drwy ddraenio, dyfrhau a chwalu clotiau gwaed

*Mae arweiniad
Techlechydd NICE
yn rhoi cyngor i'r
GIG ar pryd a sut y
gellir defnyddio
triniaethau
llawfeddygol
newydd mewn arfer
clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir draenio, dyfrhau a chwalu clotiau gwaed yn y GIG i drin hydroceffalws sy'n gysylltiedig â gwaedu ymhlith babanod cynamserol. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros lechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae'r arweiniad Techlechydd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Gall ymyriad olygu prawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbytai) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n cynnig gwerth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn gan fod y driniaeth yn eithaf newydd. Golyga hyn nad oes llawer o wybodaeth ar gael hyd yma am ba mor dda y mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha fabanod fydd yn elwa fwyaf o'i chael.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu rhieni i benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) i'r driniaeth ai peidio. Nid yw'n disgrifio hydroceffalws na'r driniaeth yn fanwl – dylai aelod o dîm gofal iechyd eich baban hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi ar y rhain. Mae'r daflen yn

cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i feddyg eich baban i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 7.

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Prin yw'r dystiolaeth ar hyn o bryd sy'n dweud pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw. Am y rheswm hwn, mae NICE wedi dweud mai dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil, a elwir weithiau yn dreial clinigol, y dylid cynnig y driniaeth hon.

Sylwadau eraill gan NICE

Nododd NICE y gall hydroceffalws sy'n gysylltiedig â gwaedu ymhlith babanod cynamserol arwain at anabledd difrifol ac mai prin yw'r triniaethau effeithiol sydd ar gael i atal hyn. Nododd NICE y gallai'r driniaeth hon o bosibl fod yn effeithiol, ond nid oes digon o dystiolaeth ynghylch a yw'n gweithio.

Trin hydroceffalws sy'n gysylltiedig â gwaedu ymhlith babanod cynamserol drwy ddraenio, dyfrhau a chwalu clotiau gwaed

Efallai nad hon yw'r unig driniaeth bosibl ar gyfer hydroceffalws sy'n gysylltiedig â gwaedu. Dylai tîm gofal iechyd eich baban siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha driniaethau eraill sydd ar gael.

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw 'draenio, dyfrhau a therapi ffibrinolytig ar gyfer hydroceffalws ôl-waedlifol ymhlith babanod cynamserol'. Fe'i gelwir hefyd yn 'DRIFT' sy'n dalfyriad o 'drainage, irrigation and fibrinolytic therapy' yn Saesneg.

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch ag arbenigwr eich baban i gael disgrifiad llawn.

Mae gwaedu yn yr ymennydd yn gymhlethdod difrifol a all ddigwydd ychydig ddyddiau ar ôl geni cyfran fach o fabanod cynamserol. Mae'n fwy cyffredin ymhlith babanod a gaiff eu geni cyn 30 wythnos o feichiogrwydd. Gall flocio llif yr hylif (a elwir yn hylif yr ymennydd) yng ngheudodau'r ymennydd, gan achosi i'r pen fynd yn fwy ac yn fwy

(hydroceffalws). Gall arwain at farwolaeth neu niwed parhaol i'r ymennydd.

Mae trin hydroceffalws sy'n gysylltiedig â gwaedu ymhlith babanod cynamserol fel arfer yn cynnwys draenio hylif yr ymennydd sawl gwaith a gosod siynt (tiwb), sy'n helpu i symud yr hylif i rannau eraill o'r corff. Nod triniaeth DRIFT yw lleihau achosion o farwolaeth ac anabled, a'r angen i osod siynt. Mae'n gwneud hyn drwy dynnu'r rhwystr, lleihau ei effeithiau niweidiol drwy ddraenio'r gormodedd o hylif o'r ymennydd, golchi'r gwaed allan, a chwalu clotiau gwaed drwy ddefnyddio cyffuriau (cyffuriau ffibrinolytig). Caiff y driniaeth ei chyflawni â'r baban o dan anesthetig cyffredinol. Bydd y driniaeth fel arfer yn para hyd at dri diwrnod.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil y gall meddyg eich baban ddefnyddio'r driniaeth hon oherwydd nad oes digon o dystiolaeth ynghylch pa mor dda mae'r driniaeth hon yn gweithio. Bydd meddyg eich baban yn gallu rhoi rhagor o wybodaeth i chi am hyn.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl i'm plentyn?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i'm plentyn? A allai cael y driniaeth wneud i gyflwr fy mhlentyn waethygu?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt?
- Pa ofal y bydd ei angen ar fy mhlentyn ar ôl y driniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na fydd fy mhlentyn yn cael y driniaeth?

Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Isod ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar ddwy astudiaeth o'r driniaeth hon.

Pa mor dda mae'r driniaeth yn gweithio?

Mewn astudiaeth o 70 o fabanod (cafodd 34 driniaeth DRIFT a chafodd 36 driniaeth safonol), ni wnaeth triniaeth DRIFT leihau nifer yr achosion o farwolaethau yn yr ysbyty neu cyn chwe mis oed (pa un bynnag oedd hwy) o gymharu â gofal safonol. Nododd ail adroddiad o'r un astudiaeth, â chanlyniadau newydd ar gyfer saith o fabanod ychwanegol, fod tri allan o'r 39 o fabanod a gafodd eu trin â DRIFT a phump allan o'r 38 o fabanod a gafodd ofal safonol wedi marw o fewn dwy flynedd.

Nododd yr adroddiad ar 77 o fabanod hefyd fod angen gosod siynt ym mhennau 16 o'r babanod a gafodd eu trin â DRIFT a 15 o'r rheini a gafodd ofal safonol o fewn dwy flynedd o gael y driniaeth. Mewn astudiaeth o 24 o fabanod, roedd angen siynt ar chwech allan o'r 23 a oroesodd y driniaeth DRIFT.

Yn yr adroddiad ar 77 o fabanod, defnyddiwyd sgoriau datblygiad plant i ragweld y tebygolrwydd y byddai'r babanod yn cael problemau datblygiadol neu anabledau. Roedd babanod a gafodd eu trin â DRIFT llawer yn llai tebygol o fod wedi datblygu anabledd meddwl difrifol pan archwiliwyd eu cynnydd ar gyfartaledd 25 mis ar ôl y driniaeth o gymharu â babanod a gafodd ofal safonol. Roedd triniaeth DRIFT hefyd yn lleihau'r tebygolrwydd y byddai'r babanod yn datblygu problemau difrifol o ran y cyfathrebu rhwng yr ymennydd a'r breichiau a'r coesau, gan ganiatáu iddynt symud yn fwy normal, o gymharu â gofal safonol, ond nid oedd gwahaniaeth sylweddol rhwng y grwpiau. Yn yr astudiaeth o 24 o fabanod, roedd gan 11 allan o'r 19 o fabanod a archwiliwyd ar ôl

blwyddyn anabledd ac roedd gan bedwar o'r babanod hyn nifer o anabledau.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr mai'r prif ffactorau llwyddiant yw llai o angen i osod siynt a gwelliannau hirdymor o ran gallu meddyliol a symudedd.

Risgiau a phroblemau posibl

Yn yr adroddiad ar 70 o fabanod, cafodd 12 allan o'r 34 a gafodd eu trin â DRIFT a thri allan o'r 36 a gafodd ofal safonol waedu pellach yn y pen. Nid achosodd y gwaedu unrhyw symptomau allanol yn y rhan fwyaf o'r babanod; cafodd un baban gwymp sylweddol, dros dro yn nifer y platennau (darnau bach o gelloedd sy'n helpu i ffurfio clotiau gwaed) yn ei waed. Yn yr astudiaeth o 24 o fabanod, cafodd dau waedu pellach yn y pen a oedd yn galw am sylw meddygol: cafodd un ei drin yn llwyddiannus â chyffur ceulo a chafodd un ei sefydlogi heb driniaeth.

Nododd yr adroddiad ar 70 o fabanod fod angen hyd at bedwar trallwysiad gwaed (1.7 ar gyfartaledd) ar fabanod a gafodd eu trin â DRIFT, o gymharu â 0-2 (1.8 ar gyfartaledd) ar fabanod a gafodd ofal safonol.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr fod haint, llid yr ymennydd, y tiwb draenio'n symud neu'n blocio, a niwed i'r ymennydd ymysg y problemau posibl. Dywedasant hefyd fod perygl o waedu pellach yn y pen pan gaiff y cyffur ffibrinolytig ei chwistrellu.

Rhagor o wybodaeth am hydroceffalws

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi gwybodaeth a chymorth pellach i chi hefyd. I gael manylion holl ganllawiau NICE ar achosion o ben babanod cynamserol yn mynd yn fwy ac yn fwy, ewch i'n gwefan yn www.nice.org.uk

NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ar atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn holi barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechyd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance

Mae'r daflen hon yn ymwneud â 'draenio, dyfrhau a therapi ffibrinolytig (DRIFT) ar gyfer hydroceffalws ôl-waedlifol ymhlith babanod cynamserol'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn

www.nice.org.uk/guidance/HTG276

Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.

National Institute for Health and Clinical Excellence

Level 1A, City Tower, Piccadilly Plaza, Manchester M1 4BT; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8462-6

N2708 November 2011

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2011. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.